



Datganiad Polisi Caffael Cymru

Ym mis Rhagfyr 2012, lansiais Ddatganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC/WPPS) yn nodi'r egwyddorion rwy'n disgwyl a fydd yn sail i gyflenwi caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn y 2 flynedd ers y lansio rydym wedi gweld proffil caffael yn cynyddu'n sylweddol a dealltwriaeth ehangach y gallai caffael, pan gaiff ei ddefnyddio'n effeithiol, fod yn arf strategol i ddarparu budd economaidd i bobl Cymru. Wedi sicrhau cytundeb i bwerau deddfu o ran caffael i Gymru mae hwn yn gyfle amserol i adolygu a chryfhau'r DPCC i gefnogi'r gwaith o gyflawni gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, darparu mwy o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant a chefnogi'r economi.

Mae cyflawni'r rhaglen gyntaf o Wiriadau Ffitrwydd Caffael yn dweud wrthym fod cynnydd wedi'i wneud ers cyhoeddi adolygiad John McClelland 'Manteisio i'r eithaf ar effaith polisi Caffael Cymru'. Mae adroddiadau'r Gwiriad Ffitrwydd, a gyhoeddwyd ar y Cynllunydd Cynllunio Caffael ar <http://prp.gov.wales/fitnesschecks2014/>, wedi rhoi meincnod clir i sefydliadau y gallant ei ddefnyddio i symud ymlaen gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

Mae polisiâu allweddol fel Manteision Cymunedol yn parhau i chwarae rôl bwysig yn y gwaith o gyflawni amcanion ehangach y Llywodraeth. Mae canlyniadau o'r prosiectau a fesurwyd hyd yma yn dangos eu bod yn amlwg yn cyfrannu at ein hagenda trechu tlodi ac yn awr yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ein rhaglen LIFT. Mae cyflwyno ein nodiadau cyngor ar gosbrestru ac Arferion Cyflogaeth mewn Caffael yn helpu i sbarduno ymddygiad moesegol ac yn sicrhau bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn lle da i wneud busnes.

Rydym wedi gweld gallu caffael yn cynyddu ledled Cymru gyda chyflwyno 28 o swyddogion caffael newydd wedi eu hyfforddi drwy Brosiect Doniau Cymru a thros 600 o swyddogion y sector cyhoeddus yn elwa o hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chaffael.

Ers ei lansio yn 2013, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) wedi gweld 73 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud ymrwymiad 5 mlynedd i ddefnyddio'r contractau a fframweithiau a fydd yn dwyn ynghyd y broses o gaffael gwariant cyffredin ac ailadroddus ar draws Cymru. Gyda thargedau ymestynnol i ddarparu hyd at £25 miliwn mewn arbedion unwaith y byddant yn gwbl weithredol, rwy'n falch o weld cynnydd da eisoes yn cael ei wneud.

Ond mae'n amlwg mai dim ond yng nghanau cynnar y daith hon yr ydym ac mae llawer mwy y gallwn ei wneud. Rwyf wedi croesawu cyflwyno Cyfarwydddeb Caffael Cyhoeddus newydd yr UE ac rwy'n benderfynol y bydd Cymru yn elwa ar y cyfleoedd y mae hon yn eu cynnig. Mae llawer o'r darpariaethau newydd yn fodd i gryfhau polisiâu presennol Llywodraeth Cymru ac mae'n rhaid i ni yn awr weld y polisi hwn yn cael ei roi ar waith ar draws Cymru. I'r perwyl hwn byddwn yn disgwyl gweld caffael yn cael ei drin gyda'r parch y mae'n ei haeddu, gyda sefydliadau yn cydnabod y budd economaidd y mae'n ei ddarparu, ac yn cydnabod caffael ar lefel y Bwrdd.

Rydym wedi gweld gwariant a enillwyd gan gyflenwyr yng Nghymru yn codi o 35% yn 2004 i 55% yn y blynyddoedd diwethaf, ac rwy'n sicr bod yna botensial i hyn gynyddu hyd yn oed ymhellach yn y dyfodol. Mae hyn yn awgrymu bod cymhwyso offer fel SQuID a chanllawiau

ar wneud ceisiadau ar y cyd yn helpu mwy o fusnesau lleol i gael mynediad at waith a'i ennill. Mae'r Gyfarwydddeb newydd yn rhoi cyfle i chwalu mwy o rwystrau i fusnes a datblygu arferion sy'n parhau i safoni a symleiddio prosesau ac annog sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol i ymgysylltu â ni.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn rhoi cyfle newydd i ni hybu egwyddorion caffael cyhoeddus yng Nghymru, gan adeiladu ar y gwaith da ers 2012. Golyga rhoi hyn ar waith yn y gwasanaeth cyhoeddus fod rhaid i ni barhau i edrych tuag at ein cenedlaethau i ddod a sicrhau canlyniadau mwy cynaliadwy o'n caffael fel y gallai ein gwariant helpu i gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru a nodir yn y Ddeddf.

Mae'r Bwrdd Caffael yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o fabwysiadu'r DPCC a goruchwyllo sut mae'r £5.5 biliwn sy'n cael ei wario bob blwyddyn drwy gaffael yn cyflawni dros Gymru. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno rheoliadau i alluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ddefnyddio ein hagenda polisi blaengar yn y ffordd orau.

Jane Hutt, AC
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

9 Mehefin 2015

Diffiniad o Gaffael

Mae'r polisi hwn yn mabwysiadu diffiniad y Tasglu Caffael Cynaliadwy¹ o gaffael: "proses lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan yn nhermau cynhyrchu manteision, nid yn unig i'r sefydliad caffael, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan greu'r difrod lleiaf i'r amgylchedd".

Egwyddorion Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru

Wrth gyflawni gweithgarwch caffael, disgwylir i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu'r egwyddorion polisi canlynol:

1. **Strategol** – Dylai gwaith caffael gael ei gydnabod a'i reoli fel swyddogaeth gorfforaethol strategol sy'n trefnu a deall gwariant; gan ddylanwadu ar y gwaith cynnar o gynllunio a threfnu gwasanaethau a chyfrannu at y broses benderfynu er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion cyffredinol.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn?

Bydd Llywodraeth Cymru'n:	Bydd sector cyhoeddus Cymru'n:
<ul style="list-style-type: none">• amlinellu 'model aeddfedrwydd' er mwyn mesur datblygiad caffael yn ei erbyn ledled sector cyhoeddus Cymru.• hwyluso Rhaglen Gwirio Ffitrwydd Caffael, i gynnwys model hunanasesu ar gyfer sefydliadau cymwys• darparu templed safonol y bydd cyrff cyhoeddus yn ei ddefnyddio i adrodd am ganlyniad a chynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu.• darparu mynediad i bolisi, cyngor ac adnoddau sy'n galluogi cyrff cyhoeddus i wella canlyniadau caffael.	<ul style="list-style-type: none">• mesur ei hun yn erbyn y model aeddfedrwydd trwy gynnal Gwiriad Ffitrwydd Caffael blynyddol ac adrodd ar argymhellion a chynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru.

¹ Caffael y Dyfodol, 2006

2. **Adnoddau proffesiynol** – dylai gwariant caffael fod yn ddarostyngedig i lefel briodol o gyfraniad a dylanwad proffesiynol, gan fabwysiadu'r meincnod cychwynnol o un gweithiwr caffael proffesiynol o leiaf i bob £10 miliwn o wariant ar draws y sector cyhoeddus ehangach.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn?

<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> cyhoeddi fframwaith cymhwysedd ar gyfer caffael sy'n amlinellu cymwysterau, profiad ac arbenigedd a fydd yn cefnogi gyrfa gaffael strwythuredig. darparu llwybrau hyfforddi a datblygu, gan gynnwys y rhai sy'n galluogi cyrff cyhoeddus i feithrin arbenigedd caffael a masnachol proffesiynol. bwrw ymlaen â'r rhaglen rhannu gwasanaethau, gan alluogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau. 	<p>Bydd sector cyhoeddus Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> sicrhau bod sgiliau ac adnoddau digonol ar waith i gyflawni gwaith rheoli contractau a chaffael effeithiol. lle mae bylchau yn cael eu nodi o fewn sefydliadau, ystyried cyfleoedd i rannu arbenigedd ar draws ffiniau sefydliadol sicrhau bod cynllun hyfforddiant caffael ar waith sy'n mynd i'r afael â bylchau adnoddau a sgiliau a rhannu hyn gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi strategaeth datblygu sgiliau yn y dyfodol. cymell swyddogion caffael i gynnal eu datblygiad proffesiynol parhaus a chynnal eu Trwydded i Ymarfer CIPS, gan gynnwys Modiwl Moeseg CIPS
---	---

3. **Effaith Economaidd, Gymdeithasol ac Amgylcheddol** – Dylid ystyried Gwerth am Arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas a'r economi a'r amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn?

<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <i>manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan Gyfarwydddeb Caffael ddiwygiedig yr Undeb Ewropeaidd i sbarduno effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol</i> darparu arweinyddiaeth, canllawiau a dulliau gweithredu ar arfer gorau caffael. cyhoeddi canllawiau polisi wedi'u diweddarau yn rhoi'r wybodaeth 	<p>Bydd sector cyhoeddus Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> darparu arweinyddiaeth ar arfer gorau caffael defnyddio dull costio oes gyfan at benderfyniadau caffael, gan ystyried yr effaith tymor hir. bod yn rhagweithiol wrth reoli cyflenwyr, gan ystyried y gadwyn gyflenwi gyfan nodi meysydd gwariant y gellir eu neilltuo ar gyfer cyflenwyr
--	--

<p>ddiweddaraf am faterion caffael moesegol gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ y cyfle i neilltuo contractau i gyflenwyr gyda gweithlu o 30% neu fwy o weithwyr o dan anfantais ▪ y cyfle i neilltuo contractau i gyflenwyr gydag ethos cymdeithasol ee Mentrau Cydweithredol a Chwmnïau Cydfuddiannol ▪ effaith y Ddeddf Caethwasiaeth Modern ar reoli'r gadwyn gyflenwi <ul style="list-style-type: none"> • darparu gwybodaeth am gyfansoddiad Economi Cymru i gefnogi datblygiad strategaethau caffael sy'n cefnogi twf economaidd yng Nghymru 	<p>gyda gweithlu o 30% neu weithwyr dan fwy o anfantais.</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi meysydd gwariant y gellir eu neilltuo ar gyfer cyflenwyr gydag ethos cymdeithasol ee Mentrau Cydweithredol a Chwmnïau Cydfuddiannol yn y tendr cyntaf. • cymhwyso'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd at bob caffaeliad dros £25,000
--	--

4. **Manteision Cymunedol** – rhaid i gyflawni budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy gymhwyso polisi Manteision Cymunedol yn effeithiol fod yn rhan annatod o waith caffael.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn?

<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darparu'r polisi Manteision Cymunedol; cryfhau'r cymorth sydd ar gael ar lawr gwlad a herio'r defnydd. 	<p>Bydd sector cyhoeddus Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • penodi hyrwyddwr manteision cymunedol ar gyfer eu sefydliad a chynghori Llywodraeth Cymru • cymhwyso dull Manteision Cymunedol at bob caffaeliad sector cyhoeddus • cymhwyso'r Offeryn Mesur at bob contract o'r fath dros £1m, fel isafswm. • darparu cyfiawnhad ar gyfer pob contract sy'n werth dros £1 miliwn os nad yw'r dull gweithredu wedi cael ei ddefnyddio
--	---

--	--

5. **Cystadleuaeth agored, hygyrch** – dylai cyrff cyhoeddus fabwysiadu dulliau caffael cymesur sy'n seiliedig ar risg i sicrhau bod cyfleoedd contract ar gael i bawb ac nad yw cyflenwyr lleol a llai o faint yn cael eu hatal rhag ennill contractau fel unigolion, fel rhan o gonsortia neu drwy swyddogaethau yn y gadwyn gyflenwi. .

Sut y byddwn yn cyflawni hyn?

<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> darparu www.gwerthwchigymru.co.uk, gan gynnwys cyfres cwestiynau cyffredin SQuID. Rhoi arweiniad, canllawiau a dulliau gweithredu ynghylch arfer gorau o ran dulliau caffael gwella gwybodaeth am flaenraglenni drwy gynnal y gwaith o gyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. 	<p>Bydd sector cyhoeddus Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> diwygio Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn ofynnol i hysbysebu pob contract dros £25k ar www.gwerthwchigymru.gov.uk. mynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi eu blaenraglen contractau ar eu gwefan defnyddio strategaethau 'lotio' priodol. defnyddio'r dull SQuID i ddewis cyflenwyr. cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contractau ar www.gwerthwchigymru.gov.uk sicrhau bod caffaeliadau ar gael ac yn hygyrch i bawb - gan gynnwys ceisiadau ar y cyd (hy consortia) hyrwyddo telerau talu teg drwy'r gadwyn gyflenwi
--	--

6. **Prosesau Safonol Syml** – dylai prosesau caffael fod yn agored a thryloyw ac yn seiliedig ar ddulliau safonol a dylent ddefnyddio systemau cyffredin sy'n lleihau cymhlethdod, cost, amserlenni a gofynion cyflenwyr mewn ffordd briodol.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn?

<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu a hyrwyddo dulliau symlach o gaffael yn seiliedig ar fabwysiadu systemau a phrosesau cyffredin, gan gynnwys gwasanaeth e-gaffael Cymru, sy'n lleihau'r gost o wneud busnes. • darparu rhaglen newid 2 flynedd a gyllidir yn ganolog i gyflymu eFasnachu • monitro'r defnydd ac effaith y dulliau hyn. • darparu cefnogaeth strwythuredig i gyrff cyhoeddus i ymgymryd â rheoli newid busnes i gefnogi'r defnydd effeithiol o e-gaffael • darparu un pwynt cyswllt ar gyfer adborth gan gyflenwyr 	<p>Bydd sector cyhoeddus Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mabwysiadu a sefydlu dulliau caffael cyffredin. • gwneud y defnydd gorau o'r dulliau e-gaffael sydd ar gael • mesur eu hunain yn erbyn y model Aeddfedrwydd eGaffael a'r model Buddion Sefydliadol eGaffael fel rhan o'r broses flynyddol o wirio ffitrwydd caffael • annog cyflenwyr i roi adborth ar hwylustod y prosesau a chyflwyno'r adborth i Lywodraeth Cymru • talu'r holl anfonebau cywir yn brydlon • defnyddio Cyfrifon Banc Prosiect lle bo'n briodol • mabwysiadu polisi 'dim archeb prynu dim tâl' ar gyfer pob gweithgaredd caffael
---	---

7. **Cydweithredu** – dylid mynd i'r afael â meysydd o wariant cyffredin ar y cyd gan ddefnyddio dulliau a manylion safonol a reolir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) i leihau dyblygu, i gael yr ymateb gorau gan y farchnad, i wreiddio egwyddorion y Datganiad Polisi hwn er budd Cymru; ac i rannu adnoddau ac arbenigedd.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn?

<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyflwyno contractau a fframweithiau cydweithredol drwy Wasanaeth Caffael Cenedlaethol hyd at £2.2 biliwn o werth dros y 2 flynedd nesaf. • cefnogi cydweithio ac agenda ehangach gwasanaethau a rennir. 	<p>Bydd sector cyhoeddus Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymrwymo i gymryd rhan yn y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol er lles Cymru a'r sefydliad unigol. • ystyried cyfleoedd ar gyfer mentrau caffael cydweithredol pellach • monitro ac adrodd ar ymgysylltu â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a chynlluniau cydweithredol eraill
--	--

8. **Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesi** – dylid gwella deialog â chyflenwyr i helpu i gael y gorau o'r farchnad, i hysbysu ac addysgu cyflenwyr ac i sicrhau'r gwerth am arian gorau.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn?

<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darparu cyfeiriad polisi clir ar arferion gorau caffael i gefnogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n mabwysiadu ymagweddau at gaffael sy'n cael eu hysbysu a'u dylanwadu gan adborth o'r gadwyn gyflenwi. • darparu cefnogaeth busnes i gyflenwyr drwy wasanaeth Busnes Cymru 	<p>Bydd sector cyhoeddus Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyhoeddi un pwynt cyswllt electronig ar gyfer deialog/adborth/ymholiadau yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi. • sicrhau bod ôl-drafodaeth yn darparu adborth digonol ar y tendr. • defnyddio manylion am ganlyniadau i annog arloesedd mewn busnes lle bo hynny'n briodol • defnyddio ymgysylltiad cyn y farchnad lle bo hynny'n briodol • cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contractau yn rheolaidd • ystyried cyfleoedd ar gyfer defnyddio darpariaeth partneriaeth arloesol newydd y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus • sicrhau bod adolygiadau rheoli perfformiad contractau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u defnyddio i annog deialog dwy ffordd
--	---

9. **Datblygu a Gweithredu Polisi** - defnyddio polisi sy'n cefnogi cyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid perthnasol eraill ar faterion a allai gael eu dylanwadu trwy bolisi caffael cyhoeddus. • defnyddio'r dynodiad 	<p>Bydd sector cyhoeddus Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio canllawiau caffael a gyhoeddwyd yn yr holl gontractau perthnasol.
---	--

<p>cyffredinol ar gaffael i gyhoeddi canllawiau caffael ar ffurf gofynion rheoleiddio ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru</p>	
---	--

10. **Mesur ac Effaith** – yn unol ag arferion rheoli da, dylid monitro perfformiad a chanlyniadau gwaith caffael i gefnogi gwelliannau parhaus a dylai enghreifftiau o arferion da a drwg gael eu rhannu'n agored.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn?

<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darparu fframwaith safonol o fesurau caffael sy'n gymesur ac yn dangos ymgysylltiad â'r DPCC. • coladu gwybodaeth a chyflwyno adroddiad i Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth a'r Bwrdd Caffael i'w hystyried wrth weithredu'r gwaith o ddatblygu polisi yn y dyfodol. 	<p>Bydd sector cyhoeddus Cymru'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • llenwi ffurflen flynyddol i Lywodraeth Cymru am ganlyniadau caffael, a gyflawnwyd drwy gaffael.
--	--



MESURAU

Mae Egwyddor 10 y DPCC yn ymrwmo Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gydweithio i baratoi a chyflwyno ffurflen flynyddol i fesur sut y caiff y DPCC ei fabwysiadu mewn gweithgarwch caffael ar draws Cymru. Mae Tabl 1 yn nodi cwrmpas y mesur.

Tabl 1

Thema	Egwyddor DPCC Dolen	Dolen i'r Polisi:	Metrigau Mabwysiadu
Adnodd a gallu	1, 2, 7, 9	<ul style="list-style-type: none">- Matrics Aeddfedrwydd Caffael sector cyhoeddus Cymru- Hyfforddiant Caffael	<ul style="list-style-type: none">• Lefel gwirio ffitrwydd caffael• Lefel o ymyrraeth caffael proffesiynol• Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus
Effaith Economaidd	3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10	<ul style="list-style-type: none">- Offer Cynaliadwyedd- Gwasanaeth e-gaffael- Manteision Cymunedol- Canllaw i Ymgeisio ar y Cyd- Nodiadau Cyngor am Gaffael Moesegol- Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQUID)	<ul style="list-style-type: none">• Arbedion o wariant caffael y gellir dylanwadu arno• Ymgysylltu gyda Busnes Cymru• Cyflawni Manteision Cymunedol• Ymgysylltu â chontractau cydweithredol a darparu gwasanaethau• Mabwysiadu systemau e-gaffael• Mabwysiadu hysbysebu gwerth isel• Cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contractau• Mabwysiadu dull cymesur, seiliedig ar risg• Defnydd o'r SRA

<p>Effaith Gymdeithasol</p>	<p>3, 4, 8, 9, 10</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Offer Cynaliadwyedd - Gwerthwchi Gymru - Manteision Cymunedol - Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru - Canllaw i Ymgeisio ar y Cyd - Nodiadau Cyngor am Gaffael Moesegol 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu â pholisïau caffael moesegol • Ymgysylltu gyda Busnes Cymru • Cyflawni Manteision Cymunedol • Ymgysylltu â mentrau cymdeithasol, gan gynnwys ffatrioedd a gynorthwyr • Defnydd o'r SRA
<p>Effaith Amgylcheddol</p>	<p>3, 4, 8, 9</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Offer Cynaliadwyedd - Gwasanaeth e-gaffael - Gwerthwchi Gymru - Manteision Cymunedol 	<ul style="list-style-type: none"> • Effaith amgylcheddol gwariant caffael y gellir dylanwadu arno • Cyflwyno Manteision Cymunedol • Mabwysiadu systemau e-gaffael • Defnydd o'r SRA